**CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU**
**COUNTRYSIDE COUNCIL FOR WALES**

DISGRIFIAD SAFLE O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG

**GWYNEDD** **CEUNANT CYNFAL**

**Dvddiad Hvsbysu:** 1971, 1977, 1983

**Cyfeirnod Grid Cenedlaethol:** SH 700413

**Mapiau Ordnans:** 1:50,000 Rhif Taflen: 124
1:25,000 Rhif Taflen: SH64, SH 74

**Arwynebedd y Safle:** 36.3 ha

**Disgrifiad:**

Ceunant coediog ysblennydd ar yr Afon Cynfal islaw Ffestiniog. Mae Ceunant Cynfal gyda'r mwyaf gwych o geunentydd ym Mhrydain. Torrodd yr afon drwy greigiauu asid, a rhai mwy basig, I ddyfnder o 45 medr mewn mannau gall adael ochr o glogwynni serth a chreu nifer o raeadrau mawrion. Derw Digoes *Quercus petraea* yw'r rhan fwyaf o'r coed gyda pheth Bedw *Betula pubescens,* Cyll *Corylus avellana*, Ynn *Fraxinus excelsior*, Criafol *Sorbus aucuparia*, Celyn *Hex aquifolium* a Llwyfen Llydanddail *Ulmus glabra*. Plannwyd peth Llarwydd *Larix decidua* a chonwydd eraill mewn mannau gall amharu ar naturioldeb y coed yma ac acw.

Mae i'r ceunant gynulliad eithriadol o fwsogau a llysiau'r afu yn cynnwys rhai megis *Dichranum scottianum*, *Lepidozia pinnata*, *Hylocomium umbratum* ac *Isothecium holtii*, y rhain yn ddibynnol ar yr amodau llaith tyner sy'n bodoli yn y ceunant. Mae'r rhedynau'n doreithiog ac yn cynnwys y ddau rywogaeth o Redynach Teneuwe, *Hymenophyllum wilsonii* a *H. tunbrigense*, Ffawydd Redynen *Thelypteris phegopterls* a'r Farch Redynen Fenyw *Athyrium filixfemina*. Ceir yma amrediad da o gen hefyd, llawer ohonynt yn tyfu ar y derw mwyaf. Mae yma boblogaeth ardderchog o adar sy'n nodweddiadol o goedwigoedd derw gorllewinol yn cynnwys Telor y Coed, Tingoch, Gwybedog Brith a Delor y Cnau.

Ceir mynediad i rannau o'r ceunant hyd lwybrau cyhoeddus a daw nifer o bobl hyd y rhain i weld y rhaeadrau godidog. Mae Nant y Brysgyll syln llifo i'r Afon Cynfal wedi ei llygru'n drwm a charthion.

**Sylwadau:**

Lleolir y safle o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

*NID yw'r ddogfen hon yn fersiwn gyfreithiol derfynol ac mae wedi cael ei fformatio, ei diweddaru a'i golygu'n rhannol i'w defnyddio ar Wefan y Cyngor Cefn Gwlad. Ni ddylid defnyddio'r ddogfen hon yn unrhyw achos cyfreithiol, ymchwiliad cyhoeddus nac unrhyw apêl neu wrandawiad arall.*

*Os byddwch angen copi cyfreithiol llawn o'r ddogfen, cysylltwch â'r Cyngor Cefn Gwlad yn ysgrifenedig os gwelwch yn dda.*